



## Newidiadau i'r system budd-daliadau llesiant yn ystod argyfwng COVID-19

23 Mawrth 2020

### Am y papur gwybodaeth yma

Cynlluniwyd y papur gwybodaeth yma i grynhoi newidiadau diweddaraf Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r system llesiant, mewn ymateb i effaith Coronafeirws (Covid-19). Caiff ei ddiweddarau'n rheolaidd fel y gwneir cyhoeddiadau newydd a newidiadau i ymarfer gweithredol.

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf un yn uniongyrchol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, ewch i wefan **[Deall Credyd Cynhwysol](#)**.

Bydd Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC) yn parhau i godi eich ymholiadau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn trin pryderon penodol sy'n gysylltiedig â chymdeithasau tai a'u tenantiaid. Anfonwch bob ymholiad at [Laura Courtney yn \[Laura-Courtney@chcymru.org.uk\]\(mailto:Laura-Courtney@chcymru.org.uk\)](mailto:Laura-Courtney@chcymru.org.uk)



## Newidiadau i fudd-daliadau llesiant

Hyd yma mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi'r newidiadau dilynol i fudd-daliadau llesiant sy'n neilltuol o berthnasol i gymdeithasau tai:

- Cynyddir lwfans safonol Credyd Cynhwysol gan £1000 y flwyddyn dros y 12 mis nesaf, yn dechrau o 6 Ebrill 2020. Mae hyn yn gyfwerth â £83 y mis ychwanegol ar gyfer hawlwr.
- Caiff Credydau Treth Gwaith eu cynyddu hefyd gan £1000 y flwyddyn dros y 12 mis nesaf, yn dechrau o 6 Ebrill 2020. Mae hyn yn gyfwerth â £20 y mis yn ychwanegol ar gyfer rhai sy'n hawlio Credyd Treth Gwaith.
- Caiff cyfraddau Lwfans Tai Lleol, sy'n rhoi uchafswm ar faint o Fudd-dal Tai neu elfen tai Credyd Cynhwysol y gellir ei ddyfarnu i denantiaid yn y sector rhent preifat, ei alinio i 30fed canradd rhenti lleol o fis Ebrill 2020.
- Gohiriwyd yr Isafswm Llawr Incwm mewn Credyd Cynhwysol o fis Ebrill 2020. Mae hyn yn golygu nad yw'n rhaid i bobl hunan-gyflogedig sy'n hawlio Credyd Cynhwysol bellach ennill mwy na £16000 y flwyddyn i gael eu heithrio o'r angen i chwilio am gyflogaeth. Bydd y newid hwn yn weithredol i bawb sy'n hawlio Credyd Cynhwysol a bydd yn parhau am gyfnod yr argyfwng Coronafeirws. Ni fydd angen i hawlwr newydd fynychu canolfan gwaith i ddangos hunan-gyflogaeth fuddiol.

## Cynnydd yn y galw am y Credyd Cynhwysol

Oherwydd yr argyfwng hwn, mae'n debyg y bydd nifer fawr o geisiadau newydd ar gyfer y Credyd Cynhwysol. Bydd CHC yn gweithio'n agos gydag aelodau a'r Adran Gwaith a Phensiynau i geisio lliniaru effaith hyn drwy newidiadau polisi a gweithredol.

I sicrhau y gall pobl gael y cymorth maent ei angen, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn symud 10,000 o staff presennol i ganolbwyntio ar brosesu hawliadau newydd.

## Newidiadau i'r broses o hawlio budd-daliadau llesiant

Caiff y rhai nad ydynt yn gymwys am dâl salwch, neu a gaiff eu hatal rhag gweithio oherwydd risg i iechyd cyhoeddus, eu hannog i **wneud cais am y Credyd Cynhwysol** a/neu **wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Cymorth arddull newydd**.

### Hawlwr newydd

Gellir gwneud **ceisiadau ar gyfer Credyd Cynhwysol** ar-lein. Ni fydd angen i'r rhai sy'n gorfod hawlio Credyd Cynhwysol neu **Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)** oherwydd Coronafeirws ddangos Nodyn Ffitrwydd.



## Hawlwyr cyfredol

Mae angen i'r rhai sydd eisoes yn hawlio Credyd Cynhwysol sy'n credu y gall Coronafeirws fod wedi effeithio arnynt gysylltu â'u hyfforddydd gwaith cyn gynted ag sy'n bosibl drwy:

- Defnyddio eu **dyddlyfr ar-lein**, neu
- ffonio **llinell gymorth** Credyd Cynhwysol

## Mynediad i ganolfannau gwaith

Bydd mynediad i ganolfannau gwaith yn gyfyngedig, gydag aelodau o'r cyhoedd ddim yn cael eu derbyn i ganolfannau gwaith os na chânt eu cyfeirio i wneud hynny gydag apwyntiad wedi'i drefnu. Dim ond yr hawlwyr mwyaf bregus na all gael mynediad i wasanaethau'r Adran Gwaith a Phensiynau drwy sianeli eraill all fynychu, gyda'r cyhoedd yn cael eu hannog i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein. I sicrhau fod grwpiau bregus yn derbyn y cymorth maent ei angen, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ymrwymo y bydd staff ar y safle i ddelio gydag unrhyw un na all gael mynediad i wasanaethau heblaw wyneb yn wyneb.

## Newidiadau i apwyntiadau canolfannau gwaith

Nid yw'n rhaid i bobl sy'n derbyn budd-daliadau ar hyn o bryd fynychu apwyntiadau canolfannau gwaith am dri mis, yn dechrau o ddydd Iau 19 Mawrth 2020. Byddant yn parhau i dderbyn eu budd-daliadau fel arfer, ond caiff pob gofyniad i fynychu'r ganolfan gwaith yn bersonol eu hatal dros dro.

## Newidiadau i asesiadau iechyd

Oherwydd yr argyfwng presennol gyda Coronafeirws, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cymryd y penderfyniad rhag ofn i atal dros dro bob asesiad wyneb-i-wyneb ar gyfer budd-daliadau cysylltiedig ag iechyd ac anabledd. Caiff adolygiadau ac ailasesiadau ar gyfer y budd-daliadau hyn hefyd eu gohirio gan dri mis. Nod hyn yw gostwng risg bod yn agored i Coronafeirws a gwarchod iechyd unigolion sy'n hawlio budd-daliadau iechyd ac anabledd, gyda llawer ohonynt yn debygol o fod mewn mwy o risg oherwydd cyflyrau iechyd sydd ganddynt eisoes.

Nid yw'n rhaid i rai sydd eisoes ag apwyntiad asesi wedi ei drefnu i fynychu. Bydd darparwydd yr asesiad yn cysylltu â nhw i esbonio'r camau nesaf.

Nid yw'n rhaid i rai a wnaeth gais am y Credyd Cynhwysol, Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) neu Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol (IIDB) ond na chawsant apwyntiad, wneud dim. Cysylltir â nhw yn y dyfodol agos dros y ffôn neu drwy lythyr i'w hysbysu beth fydd yn digwydd nesaf.



## Tâl Salwch Statudol

Gall gweithwyr cyflogedig sy'n gymwys am **Dâl Salwch Statudol** yn awr ei gael o ddiwrnod cyntaf eu salwch, yn hytrach nag o'r pedwerydd.

Mae Tâl Salwch Statudol yn daladwy os ydych yn aros adre ar gyngor y Llywodraeth, nid dim ond os ydych wedi eich heintio gan Coronafeirws.

Gall rhai sydd angen iddynt roi tystiolaeth i'w cyflogwr fod angen iddynt aros adre oherwydd fod ganddynt symptomau Coronafeirws, neu os oes symptomau ar rywun y maent yn byw gyda nhw, gael Nodyn Ynysu o **NHS 111 ar-lein** neu **wefan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol**.

## Cynllun Cadw Swydd Coronafeirws

Gall holl gyflogwyr y Deyrnas Unedig gael cymorth i barhau i dalu rhan o gyflog eu gweithwyr cyflogedig, pe byddent fel arall wedi eu diswyddo yn ystod yr argyfwng hwn. Bydd HMRC yn ad-dalu 80% o gostau cyflog gweithwyr ar gyfnod seibiant, hyd at uchafswm o £2,500 y mis. Mae HMRC yn gweithio fel mater o frys i sefydlu system ar gyfer ad-dalu. Ni all y systemau presennol hwyluso taliadau i gyflogwyr.

Er mwyn cael mynediad i hyn, mae angen gyflogwyr:

- dynodi gweithwyr cyflogedig yr effeithiwyd arnynt fel 'gweithwyr ar gyfnod seibiant';
- hysbysu eich gweithwyr cyflogedig am y newid hwn (mae newid statws gweithwyr cyflogedig yn parhau'n ddibynnol ar gyfraith cyflogaeth bresennol ac, yn dibynnu ar y contract cyflogaeth newydd, gall fod yn agored i negodiad)
- cyflwyno gwybodaeth i HMRC ar weithwyr ar gyfnod seibiant a'u henillion drwy borth ar-lein newydd (bydd HMRC yn rhoi manylion pellach ar yr wybodaeth sydd ei hangen)

Disgwylir cyhoeddiadau pellach yn y dyfodol agos yng nghyswllt cymorth ariannol ar gyfer pobl hunangyflogedig, ar ôl beirniadaeth eang am y gwahaniaeth yn y cymorth sydd ar gael i weithwyr cyflogedig â'r hunangyflogedig.

## I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Laura Courtney

Rheolydd Polisi a Materion Allanol

[Laura-Courtney@chcymru.org.uk](mailto:Laura-Courtney@chcymru.org.uk)